**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 9 Mai 2001

**Amser:** 2.00 i 5.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## ADOLYGIAD POLISI A RHEOLAETH ARIANNOL (FMPR) ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD – Y MATERION SY'N DOD I'R AMLWG

1. Mae papur a gynhyrchwyd gan y Tîm Adolygu Asiantaeth yr Amgylchedd, wedi eu lleoli yn Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) ynghlwm sy'n hysbysu Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth am y materion sy'n dod i'r amlwg o Gam 1 Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol Asiantaeth yr Amgylchedd.

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a chynnig sylwadau ar ddull, a'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r Adolygiad, a'u goblygiadau tebygol i Gymru.

3. Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor pan fu'n ystyried Cylch Gorchwyl yr Adolygiad, mae'n cynnwys ystyried a yw un Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Cymru a Lloegr yn parhau i fod yn briodol yn dilyn datganoli yng Nghymru a chreu'r Cynulliad. Bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y dadleuon o blaid ac yn erbyn Asiantaeth ar wahân i Gymru fel a nodir yn Atodiad A y papur hwn.

4. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol y noddir Asiantaeth yr Amgylchedd ar y cyd gan DETR, MAFF a'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad yn darparu cymorth grant i gefnogi gwaith yr Asiantaeth yng Nghymru. Mae'r tîm o swyddogion sydd wedi bod yn ymgymryd â'r Adolygiad wedi eu lleoli yn y DETR. I gefnog tîm yr Adolygiad, mae staff o'r Cynulliad ac o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi bod yn cymryd rhan yn y broses o nodi'r ystyriaethau ar gyfer Asiantaeth ar wahân i Gymru, yn enwedig edrych ar y goblygiadau cost ynghlwm a'r opsiwn yma. Argymhellodd y Pwyllgor, pan fu'n ystyried y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad yn ystod ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2000, y dylai swyddogion y Cynulliad gyfrannu at waith tîm yr Adolygiad.

5. Mae’r papur yn cyfeirio at adolygiad pum mlynedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n cael ei gyflawni gan y Cynulliad ar hyn o bryd. Bu’r Pwyllgor yn ystyried adroddiad interim drafft ar adolygiad CCGC yn ystod ei gyfarfod ar 21 Mawrth a nododd yr aelodau eu bod yn dymuno ystyried adolygiadau cysylltiedig hefyd, yn enwedig Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol Asiantaeth yr Amgylchedd.

**ADOLYGIAD POLISI A RHEOLAETH ARIANNOL ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD – Y MATERION SY’N DOD I’R AMLWG**

**Diben**

1. Y materion sy’n dod i’r amlwg o Gam Un adolygiad pum mlynedd Asiantaeth yr Amgylchedd

**Argymhelliad**

2. Bod y Pwyllgor:

a. yn nodi dull, y themâu sy’n dod i’r amlwg a’r amserlen a nodir isod;

b. yn ystyried natur y dadleuon o blaid ac yn erbyn sefydlu Asiantaeth ar wahân ar gyfer Cymru yn Atodiad A

**Cefndir**

3. Bu’r Pwyllgor yn trafod cylch gorchwyl a threfniadau ymdrin â’r Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol ar 1 Tachwedd 2000, cyn ei gyhoeddi’n ffurfiol gan Michael Meacher ar 8 Rhagfyr 2000. Yn dilyn ymgynghoriad eang â’r cyhoedd (gweler yr Amserlen isod), mae prif themâu Cam Un yr Adolygiad yn dod i’r amlwg yn awr ac fe’u trafodir yn y papur hwn, ynghyd â’u goblygiadau penodol i Gymru. Rhagflaenir hyn gan ddisgrifiad o’r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflawni’r Adolygiad gan Dîm yr Adolygiad. Hoffai’r Tîm ddiolch i staff y Cynulliad am eu cefnogaeth drwy gydol yr Adolygiad hyd yma, ac yn enwedig am eu cymorth wrth lunio’r amcangyfrifon cost y cyfeirir atynt yn Atodiad A y papur hwn.

**Dull yr Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol**

4. Mae maint Asiantaeth yr Amgylchedd, gyda’i gylchoedd gwaith swyddogaethol a daearyddol mawr wedi golygu bod nifer fawr o faterion potensial y gellid bod wedi eu harchwilio yn ystod yr adolygiad cyfredol, yn enwedig ar y cam "opsiynau blaenorol" (Cam Un). Felly mae Tîm yr Adolygiad wedi defnyddio dull wedi’i ffocysu, gan flaenoriaethu’r materion i’w hadolygu, a chanolbwyntio ar themâu allweddol a fyddai o fudd i ddatblygiad yr Asiantaeth. Felly, mae’r

Adolygiad cyntaf hwn yn ceisio gwneud y pethau hyn:

- Rhoi prawf ar y **fframwaith polisi strategol** sy'n llywio gwaith yr Asiantaeth.

- Adolygu **rôl a swyddogaethau'r** Asiantaeth yn benodol

- Gwirio bod mecanweithiau priodol yn eu lle er mwyn galluogi'r Asiantaeth i gydweithio gyda, a bod yn **atebol i'r Llywodraeth**, a bod y rhain yn gweithio'n effeithiol.

- Sicrhau bod blaenoriaethau'r Asiantaeth yn adlewyrchu **polisïau a blaenoriaethau'r Llywodraeth**, a bod yr Asiantaeth wedi **ei threfnu i gyflenwi'r** polisïau a'r blaenoriaethau hyn; a bod y trefniadau yn addas ar gyfer y pwrpas, gan adlewyrchu'r egwyddorion moderneiddio llywodraeth lle bo'n briodol.

- Ystyried a wnaed cynnydd ac a yw'r cynnydd yn parhau i ddigwydd o ran datblygu **dull integredig** o ddiogelu a gwella amgylcheddol a ragwelwyd pan sefydlwyd yr Asiantaeth, a gwirio a yw'r dyheadau a'r uchelgeision gwreiddiol yn parhau'n ddilys.

- Adolygu a yw **mecanweithiau cyllido'r** Asiantaeth yn hwyluso cyflenwi'r amcanion polisi, mewn modd sy'n darparu gwerth am arian i'r trethdalwr, yn ganolog ac yn lleol, ac i'r rhai sy'n talu am wasanaethau'r Asiantaeth drwy ffioedd.

- O gofio bod yr Asiantaeth yn gorff anetholedig, a'i fod yn gweithredu disgresiwn eang wrth gyflenwi ei swyddogaethau, gwirio bod mecanweithiau cywir yn bodoli i'r Asiantaeth **adrodd am ei gweithgareddau** ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol/lleol.

5. Un nodwedd arall yr adolygiad yma yw'r ffordd y bydd llawer o'r materion allweddol hyn yn llifo o waith pellach wrth i ddulliau a fframwaith strategol yr Asiantaeth a'r Llywodraeth gael eu datblygu ac wrth i Asiantaeth yr Amgylchedd ymgymryd â gwaith dadansoddi a awgrymir yn yr Adolygiad.

**Y Themâu sy'n dod i'r amlwg**

6. Yn erbyn y cefndir hwn, nodir prif themâu'r Adolygiad isod. Dylid nodi, tra bo hwn yn rhestr o faterion unigol, mae'r meddylfryd sy'n sylfaen i'r adolygiad yn cysylltu'r rhain mewn themâu cydlynus. Felly, i raddau helaeth, ni ddyluniwyd y materion a'r argymhellion a fydd yn dod i'r amlwg i sefyll ar eu pennau eu hunain ond yn hytrach i weithio gyda'i gilydd ac adeiladu ar ei gilydd i gyflenwi gwelliannau cyfansawdd mewn nifer cyfyngedig o feysydd allweddol bwysig.

**1) Pennu'r Agenda Strategol**

- *Pennu'r agenda polisi*
- *Sicrhau bod yr atebolrwydd yn eglur*
- *Diffinio rôl ac amcanion strategol yr Asiantaeth*

**2) Noddi Effeithiol a Chynllunio Corfforaethol**

- *Cydlynu'r noddi*
- *Sefydlu fframwaith cynllunio corfforaethol effeithiol*

**3) Rheoli Perfformiad**

- *Cysylltu amcanion yr Asiantaeth ag amcanion y Llywodraeth*
- *Sut mae'r Asiantaeth yn cyflenwi ei swyddogaethau*

**4) Trefniadaeth ac Ariannu**

- *Cyllido Amddiffyn rhag Llifogydd a threfniadau gweinyddol*
- *Codi tâl am Amddiffyn Amgylcheddol a gwaith rheoleiddio yn y dyfodol*
- *Integreiddio, trefniadaeth a strategaeth newid*

**5) Materion Allweddol Eraill**

- *Yr achos o blaid ac yn erbyn Asiantaeth ar wahân ar gyfer Cymru*
- *Ffiniau Rhanbarthol*
- *Pwyllgorau rhanbarthol a chysylltiadau*
- *Swyddogaethau*

7. Yn ychwanegol, mae rhai themâu a negeseuon allweddol, nad ydynt yn ymwneud yn benodol ag unrhyw destun penodol ond y byddant yn mynd trwy'r adolygiad cyfan, yn cynnwys Cam 2. Yr un pwysicaf o'r rhain yw *diwylliant effeithlonrwydd* yr Asiantaeth ac a yw a sut mae ystyriaethau effeithlonrwydd, a'r angen am wella'n barhaus, wedi eu cynnwys ym mhroses gwneud penderfyniadau strategol yr Asiantaeth.

8. Yn deillio o’r themâu a’r materion allweddol hyn, bydd yr Adolygiad yn ystyried a oes angen diwygio’r canllawiau ynghylch amcanion strategol yr Asiantaeth, yn cynnwys ei nod statudol o gyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy a bydd yn edrych ar ffyrdd o gryfhau a chydlynu’r berthynas rhwng y Llywodraeth a’r Asiantaeth yn well.

**Y Goblygiadau i Gymru**

9. Y gobaith yw y bydd y themâu allweddol hyn, yn enwedig themâu 1 a 2, a’r camau gweithredu a’r argymhellion a gyhoeddir o dan y themâu hyn, yn caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd barhau i wella ei gweithredoedd yng Nghymru ac yn darparu ar gyfer i’r Cynulliad reoli ei berthynas â’r Asiantaeth yn well, gan sicrhau ei bod yn cyflenwi’r canlyniadau cywir i Gymru. Cred Tîm yr Adolygiad mai’r prif fanteision i Gymru fydd:

- ei gwneud yn glir beth fydd cyfraniad yr Asiantaeth o ran cyflenwi *"Cymru Gynaliadwy – dysgu byw’n wahanol".*
- y gallu i bennu amcanion strategol sy’n canolbwyntio ar anghenion Cymru
- mecanweithiau i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflenwi drwy well rheolaeth perfformiad
- gwell dull o ymdrin â noddi a chynllunio corfforaethol ar draws Cymru a Lloegr.

**Asiantaeth ar wahân ar gyfer Cymru**

10. Bydd yr Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol yn sicrhau y bydd y gwelliannau a argymhellir yn gwasanaethu buddiannau Cymru o fewn y trefniadau presennol. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i’r adroddiad ystyried y mater penodol a ddylid parhau ag un Asiantaeth yr Amgylchedd, neu a ddylid creu Asiantaeth ar wahân ar gyfer Cymru. Mae’r mater yma wedi dod fwy i’r amlwg yn dilyn datganoli ac adolygiadau sefydliadau amgylcheddol eraill yng Nghymru, fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y dadleuon a grynhoir yn Atodiad A.

11. Ar hyn o bryd mae barn tîm yr Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol yn tueddu tuag at gadw un Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Cymru a Lloegr.

**Amserlen**

12. Dyma’r prif ddigwyddiadau yn y broses Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol hyd yma:-

- Bu Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cynulliad yn trafod cylch gorchwyl yr Adolygiad ar 1 Tachwedd 2000

- Cyhoeddodd Michael Meacher yn swyddogol ar 8 Rhagfyr 2000 fod yr Adolygiad yn dechrau, wrth ymateb i Gwestiwn Seneddol

- Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn gysylltiedig â'r Adolygiad ar 8 Rhagfyr 2000, a pharhaodd tan 2 Mawrth 2001

- Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd seminar Cymreig yng Nghaerdydd, a thri seminar rhanbarthol yn Lloegr yn Leeds, Reading a Chaerlyr ym mis Ionawr.

- Yn ychwanegol at y broses ymgynghori ffurfiol, cynhaliodd tîm yr adolygiad gyfres o gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y Llywodraeth, a'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn ystod mis Chwefror a Mawrth.

- Yn dilyn hyn cadeiriodd Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) gyfarfod *ad hoc* yn cynnwys cynrychiolwyr o haen uchaf y Llywodraeth a budd-gyfrannwyr ar 9 Ebrill i drafod datblygu meddylfryd Tîm yr Adolygiad a'r materion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Cam Un.

- Mae Bwrdd a Chyfarwyddwyr Asiantaeth yr Amgylchedd wedi eu briffio ar y casgliadau hyn sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â Chadeirydd yr Asiantaeth, Syr John Harman, yn bersonol.

- Cyfarfu Syr John Harman â Michael Meacher ar 30 Ebrill i drafod yr Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol.

**Y Camau Nesaf**

13. Mae fersiwn ddrafft o'r adroddiad Cam Un i'w ddosbarthu i'r Gweinidogion sy'n noddi (yn cynnwys Sue Essex) ddiwedd fis Mai.

14. Mae Tîm yr Adolygiad yn dechrau ystyried sgôp Cam Dau yr Adolygiad, gyda'r nod o'i gwblhau ym mis Medi 2001. Mae astudiaeth o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

systemau’r Asiantaeth yn cael ei gyflawni eisoes gan Deloitte and Touche.